Senedd Cymru

**Polisïau Comisiwn y Senedd**

# Polisi Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

# Cynnwys


Nod y Polisi ..... 3

Datganiad Polisi ..... 3

Llwgrwobrwyo ..... 4

Cofnodion ..... 4

Gweithio Dramor ..... 5

Taliadau Hwyluso ..... 5

Rhoddion, Lletygarwch ac yn y Blaen ..... 6

Rheoli Risg ..... 6

Fframwaith Ariannol ..... 7

Cynllun Ymateb i Dwyll ..... 7

Rhoi Gwybod am Amheuon ..... 7

Gweithredu Gan y Comisiwn ..... 8

Adolygu Gweithdrefnau a Hyfforddi ..... 9

# Nod y Polisi

Mae Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") yn annog diwylliant rhydd ac agored mewn trafodion rhwng ei staff a'r holl drydydd partion y mae'n ymwneud â hwy o ganlyniad i'w berthnasau busnes a chyfreithiol. Yn arbennig, mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ran ymddygiad moesol ac uniondeb yn ei weithgareddau yn y DU a thramor, ac yn cydnabod bod cyfathrebu effeithiol a gonest yn hanfodol os yw pryderon am doriadau neu fethiannau i'w trin yn gywir.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob un o weithwyr y Comisiwn, a'r rheiny sy'n destun iddo wrth ddarparu gwasanaethau i'r Comisiwn, gan gynnwys gweithwyr dros dro, ymgynghorwyr, contractwyr ac asiantiaid sy'n gweithredu dros, neu ar ran, y Comisiwn yn y DU a thramor. Mae pob gweithiwr a pherson cysylltiedig sy'n gweithredu dros, neu ar ran, y Comisiwn yn gyfrifol am gynnal y safonau uchaf o ran ymddygiad busnes. Mae'n debygol y bydd unrhyw achos o dorri amodau'r polisi hwn yn fater disgyblu, cytundebol a throseddol difrifol i'r person neu sefydliadau o dan sylw a gallai achosi niwed difrifol i enw da a statws y Comisiwn.

Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud ag Aelodau o'r Senedd a staff cymorth yr Aelodau mewn polisi ar wahân.

# Datganiad Polisi

Nid yw'r Comisiwn yn goddef llwgrwobrwyo, twyll na llygredigaeth. Pan gaiff unrhyw achos o lwgrwobrwyo, twyll neu lygredigaeth ei brofi caiff ei ymchwilio'n drylwyr. Bydd y camau a gymerir yn dibynnu ar natur, lefel ac amgylchiadau pob achos. Er hynny, ym mwyafrif yr achosion, bydd y camau a ystyrir yn cynnwys camau disgyblu (yn erbyn cyflogeion), erlyn troseddol a/neu adennill asedau ac arian y Comisiwn a gamddefnyddiwyd.

Mae'r Comisiwn yn cydymffurfio â Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn ei holl weithgareddau perthnasol yn y DU a thramor.

Nid yw'r Comisiwn, ac ni fydd yn cynnig, addo, rhoi, gofyn am, cytuno i gael neu'n derbyn unrhyw lwgrwobrwyon neu gymhellion amhriodol ar gyfer unrhyw ddiben o gwbl.

Ni fydd y Comisiwn yn goddef unrhyw fath o lwgrwobrwyo gan neu yn erbyn ei weithwyr neu bersonau cysylltiedig. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i weithredu mesurau effeithiol i atal, monitro a chael gwared â llwgrwobrwyo. Bydd gofyniad i gydymffurfio â'r polisi hwn yn amod o unrhyw gytundeb a wneir gyda chyflenwr nwyddau neu wasanaethau.

Mae'n ofynnol i bob gweithiwr a pherson cysylltiedig ymgyfarwyddo â'r polisi hwn a chydymffurfio ag ef, gan gynnwys unrhyw fersiynau sydd wedi'u diweddaru ohono a gyhoeddir gan y Comisiwn o bryd i'w

gilydd yn y dyfodol. Atgoffir gweithwyr o'u hymrwymiadau perthnasol o dan God Ymddygiad y Staff gan gynnwys yr Egwyddorion a amlinellir yn Adran 3 o'r Cod hwnnw.

# Llwgrwobrwyo

Gall y Comisiwn fod yn droseddol atebol am weithrediadau anghyfreithlon gan ei weithwyr neu bersonau cysylltiedig sy'n tramgwyddo Deddf Llwgrwobrwyo 2010.

Mae'r Comisiwn yn gwahardd ei weithwyr neu bersonau cysylltiedig rhag cynnig, addo, rhoi, gofyn am, cytuno i gael neu dderbyn unrhyw lwgrwobrwyon neu gymhellion amhriodol. Gall y llwgrwobrwyo fod ar ffurf arian parod, rhodd neu gymhelliad arall i, neu oddi wrth, unrhyw berson neu gwmni, boed yn swyddog cyhoeddus neu lywodraethol, yn swyddog o ddiwydiant a reolir gan y wladwriaeth, plaid wleidyddol neu berson neu gwmni preifat, ni waeth a yw'r gweithiwr neu berson cysylltiedig wedi'i leoli yn y DU neu dramor. Gallai'r llwgrwobr neu gymhelliad gael ei roi i sicrhau bod person neu gwmni yn cyflawni dyletswyddau neu swyddogaethau yn amhriodol (er enghraifft, drwy beidio ag ymddwyn yn ddiduedd neu'n ddidwyll neu'n unol â'r ymddiriedaeth a roddwyd ynddynt) i sicrhau unrhyw fantais fasnachol, cytundebol neu reoleiddio i'r Comisiwn drwy gael neu gynnal busnes y Comisiwn, neu i sicrhau mantais bersonol, yn ariannol neu fel arall, i'r unigolyn neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r unigolyn.

**Mae cael rhodd neu daliad neu driniaeth arbennig gan gwmni/cyflenwr gyda'r bwriad bod hynny'n dylanwadu ar eich dull o wneud penderfyniad yn weithred o lwgrwobrwyo.**

**Darperir hyfforddiant gorfodol i bob rheolwr contractau.**

# Cofnodion

Mae'n ofynnol i weithwyr a phersonau cysylltiedig gymryd gofal arbennig i sicrhau bod cofnodion sy'n ymwneud ag unrhyw gytundebau neu weithgareddau busnes, gan gynnwys anfonebau ariannol a'r holl drafodion talu â thrydydd parti, yn cael eu cadw'n gywir.

Dylai gweithwyr a phersonau cysylltiedig ymgymryd â diwydrwydd dyladwy cyn ymrwymo i unrhyw gytundeb, trefniant neu berthynas â thrydydd parti yn unol â pholisiau a gweithdrefnau caffael a rheoli risg y Comisiwn.

Mae'n ofynnol i weithwyr a phersonau cysylltiedig gadw cofnodion cywir, manwl ac amserol o bob achos o letygarwch corfforaethol, adloniant neu roddion a dderbynnir neu a gynigir – gweler Adran 8 isod.

***Mae ffugio cofnodion yn weithred o dwyll***
***- boed yn anfoneb, llythyr, taflen fflecsi gweithiwr, ac yn y blaen.***

# Gweithio Dramor

Gall gweithwyr neu bersonau cysylltiedig sy'n cynnal busnes ar ran y Comisiwn y tu allan i'r DU fod mewn mwy o berygl o ddod i gysylltiad â llwgrwobrwyo neu ymddygiad busnes anfoesol. Mae ar weithwyr a phersonau cysylltiedig ddyletswydd i'r Comisiwn i fod yn hynod o wyliadwrus wrth gynnal busnes rhyngwladol.

Mae'n ofynnol ar weithwyr a phersonau cysylltiedig gydfynd â gweithdrefnau rheoli risg y Comisiwn a rhoi gwybod am unrhyw amheuon sy'n ymwneud â llwgrwobrwyo yn unol â'r Polisi Datgelu yn y Gwaith er Lles y Cyhoedd. Tra dylid rhoi gwybod am unrhyw amgylchiadau amheus, mae'n ofynnol i weithwyr a phersonau cysylltiedig roi gwybod yn arbennig am:

- gysylltiadau teuluol agos*, cysylltiadau personol neu gysylltiadau busnes a allai fod rhwng gweithiwr neu berson cysylltiedig a swyddogion, cyfarwyddwyr neu weithwyr llywodraethol neu gorfforaethol.
- y ffaith y bu achosion o lygredigaeth yn y wlad lle yr ymgymerir â'r busnes;
- ceisiadau am arian parod;
- ceisiadau am drefniadau talu anghyffredin, er enghraifft, drwy drydydd parti;
- ceisiadau am ad-dalu treuliau nas profwyd neu rhai anghyffredin; neu
- ddiffyg anfonebau safonol ac arferion ariannol priodol.

**Gŵr, gwraig neu bartner, partner sifil, brawd, chwaer, plentyn neu riant i'r gweithiwr. Mae brawd, chwaer, plentyn neu riant yn cynnwys llysfrawd, llyschwaer, llysblentyn neu lysriant neu rhai a fabwysiadwyd/sydd wedi mabwysiadu. Mae teulu agos yn cynnwys rhywun sy'n byw ar yr un aelwyd fel rhan o'ch teulu.*

Os oes gan weithiwr neu berson cysylltiedig unrhyw amheuaeth ynglŷn ag a yw gweithred bosibl yn achos o lwgrwobrwyo, dylid cyfeirio'r mater at unrhyw un o'r unigolion a nodir yn y Polisi Chwythu’r Chwiban.

# Taliadau Hwyluso

Mae'r Comisiwn yn gwahardd ei weithwyr neu bersonau cysylltiedig rhag gwneud neu dderbyn unrhyw daliadau hwyluso. Taliadau yw'r rhain a wneir i swyddogion cyhoeddus am gyflawni neu gyflymu gweithdrefnau cyffredin. Maent yn fwy cyffredin dramor. Mae taliadau hwyluso yn wahanol i broses llwybr carlam swyddogol sydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd taliadau hwyluso, neu gynigion o daliadau o'r fath, yn drosedd a gyflawnir gan yr unigolyn dan sylw a'r Comisiwn o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010, hyd yn oed lle gwneir taliadau o'r fath neu y gofynnir amdanynt dramor*. Mae'n ofynnol i weithwyr a

phersonau cysylltiedig weithredu'n fwy gwyliadwrus wrth ymdrin â gweithdrefnau cyhoeddus a llywodraethol dramor.

Pan fo swyddog cyhoeddus wedi gofyn am daliad, dylai gweithwyr neu bersonau cysylltiedig ofyn am ragor o fanylion ynglŷn â diben a natur y taliad yn ysgrifenedig. Os yw'r swyddog cyhoeddus yn gwrthod rhoi'r rhain, dylid rhoi gwybod am hyn ar unwaith i unrhyw un o'r unigolion a nodir yn y Polisi Chwythu'r Chwiban.

Os yw'r swyddog cyhoeddus yn darparu manylion ysgrifenedig. bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn ystyried natur y taliad. Mae'n bosibl y bydd y Comisiwn am geisio cael cyngor cyfreithiol yn lleol.

Os deuir i'r casgliad bod y taliad yn ffi cyfreithlon, er enghraifft, yn rhan o broses llwybr carlam dilys, neu'n cael ei ganiatau yn lleol, ond nid yn daliad hwyluso, bydd y Comisiwn yn awdurdodi'r gweithiwr i dalu.

Pan fo'r Cyfarwyddwr Cyllid yn ystyried bod y cais yn un am daliad hwyluso, caiff y gweithiwr neu'r person cysylltiedig gyfarwyddiadau i wrthod gwneud y taliad ac i hysbysu'r swyddog cyhoeddus ei fod yn ofynnol i'r gweithiwr neu'r person cysylltiedig roi gwybod i'r Comisiwn a llysgenhadaeth perthnasol y DU am y mater.

Bydd y Comisiwn yn ceisio cymorth y gweithiwr neu'r person cysylltiedig perthnasol yn ei ymchwiliad a gall benderfynu bod angen cyfeirio'r mater at yr awdurdodau erlyn.

Os oes gan weithiwr neu berson cysylltiedig unrhyw bryderon eraill am natur cais am daliad, dylent hysbysu unrhyw un o'r unigolion a nodir yn y Polisi Chwythu'r chwiban amdano yn unol â'r polisi hwnnw.

** Deddf Llwgrwobrwyo 2010, adran 6.*

# Rhoddion, Lletygarwch ac yn y Blaen

Mae'n ofynnol i weithwyr a phersonau cysylltiedig lynu wrth bolisi a gweithdrefnau'r Comisiwn ar Roddion a Lletygarwch.

| |
|---|
| ***Mae Cod Ymddygiad y Staff yn nodi na ddylech dderbyn rhoddion neu letygarwch na derbyn unrhyw fuddion eraill gan unrhyw un pe gellid ystyried yn rhesymol y byddai hynny'n peryglu uniondeb neu farn bersonol.*** |

# Rheoli Risg

Mae gan y Comisiwn fframwaith rheoli risg ar waith ac mae'n cynnal asesiadau risg ar gyfer ei brif weithgareddau busnes yn rheolaidd. Pan fo'n berthnasol, nodir pa weithwyr yn y Comisiwn a pha

bersonau cysylltiedig a ystyrir eu bod mewn sefyllfa lle gallent wynebu mwy o berygl o lwgrwobrwyo, twyll neu lygredigaeth a threfnir sesiynau briffio penodol ar dwyll/llygredigaeth ar eu cyfer.

Bydd y Comisiwn yn nodi meysydd o risg uchel, er enghraifft prosiectau mewn gwledydd â risg uchel, prosesau tendro a'r rheiny sy'n gweithio ar brosiectau o werth mawr.

Ar gyfer y meysydd risg uchel hynny, bydd y Comisiwn yn:

- monitro gweithwyr a phersonau cysylltiedig sydd "mewn perygl"  yn rheolaidd;
- ymgymryd â diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â phersonau cysylltiedig a thrydydd parti; a
- chyfathrebu ei ymagwedd dim goddefgarwch tuag at lwgrwobrwyo, twyll a llygredigaeth i bersonau cysylltiedig a thrydydd parti.

| *Bydd y Comisiwn yn cyflawni Asesiadau Risg priodol o bryd i'w gilydd.* |
|---|

# Fframwaith Ariannol

Yn ogystal â'r fframwaith deddfwriaethol, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi Llawlyfr Cyllid.

Llawlyfr Cyllid y Comisiwn sy'n nodi'r fframwaith rheoli ynghylch trafodion ariannol. Rhaid cydymffurfio â'r Llawlyfr hwn bob amser a gallai torri'r amodau ynddo arwain at gamau disgyblu.

# Cynllun Ymateb i Dwyll

Mae'r Comisiwn wedi datblygu Cynllun Ymateb i Dwyll sy'n darparu canllawiau i bob Aelod, staff cymorth yr Aelodau, gweithwyr y Comisiwn a phersonau cysylltiedig os digwydd i unrhyw un fod yn ymwybodol bod twyll gwirioneddol neu bosibl yn cael ei gyflawni.  Fframwaith Ariannol

Yn ogystal â'r fframwaith deddfwriaethol, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi Llawlyfr Cyllid.

Llawlyfr Cyllid y Comisiwn sy'n nodi'r fframwaith rheoli ynghylch trafodion ariannol. Rhaid cydymffurfio â'r Llawlyfr hwn bob amser a gallai torri'r amodau ynddo arwain at gamau disgyblu.

# Rhoi Gwybod am Amheuon

Mae'r Comisiwn yn dibynnu ar ei weithwyr a phersonau cysylltiedig i sicrhau bod y safonau ymddygiad moesol uchaf yn cael eu cynnal yn ei holl faterion busnes. Mae'n ofynnol i weithwyr a phersonau cysylltiedig gynorthwyo'r Comisiwn ac i barhau'n wyliadwrus er mwyn atal, datgelu a rhoi gwybod am dwyll, llygredigaeth neu lwgrwobrwyo.

Dylai gweithwyr a phersonau cysylltiedig roi gwybod am unrhyw amehuon y gallai fod ganddynt i unrhyw un o'r unigolion a nodir yn y Polisi Chwythu’r Chwiban cyn gynted ag y bo modd. Mae materion y dylid rhoi gwybod amdanynt yn cynnwys:

- amheuon y gwnaed ymdrech i dwyllo, cyflawni achos o lygredigaeth neu lwgrwobrwyo neu ymdrech wirioneddol yn hynny o beth;
- pryderon y gallai gweithwyr neu bersonau cysylltiedig eraill fod yn cael eu llwgrwobrwyo; neu
- bryderon y gallai gweithwyr neu bersonau cysylltiedig eraill fod yn llwgrwobrwyo trydydd parti, megis cleientiaid neu swyddogion cyhoeddus.

Ynghyd â rhoi gwybod am dwyll, llygredigaeth neu lwgrwobrwyo, mae gan unigolion ddyletswydd i roi gwybod am achosion lle y credant bod asedau'r Comisiwn mewn perygl. Er enghraifft, gallai hyn fod oherwydd bod risg diogelwch y gallai un o asedau'r Comisiwn  gael ei dwyn, neu gallai fod yn achos o dorri'r system TG gan olygu mai gwybodaeth sy'n fregus.

Ceir mynediad at systemau TG drwy ddefnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair. Mae'n rhaid i unigolion roi gwybod am achosion o dorri diogelwch systemau TG bob amser, yn enwedig pan fyddant yn credu bod eu cyfrinair neu gyfrinair arall wedi'i beryglu.

Caiff gweithwyr neu bersonau cysylltiedig sy'n rhoi gwybod yn ddidwyll am achosion o dwyll, llygredigaeth neu lwgrwobrwyo gefnogaeth y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn sicrhau na fydd yr unigolyn yn cael triniaeth anfanteisiol o ganlyniad i'r ffaith iddynt roi gwybod yn unol â'r Polisi Chwythu’r Chwiban. Caiff unrhyw achos o driniaeth anfanteisiol gan gydweithiwr oherwydd bod gweithiwr wedi cyflwyno adroddiad ei drin fel achos disgyblu.

Mae cyfarwyddyd i gelu unrhyw ddrygioni yn drosedd ddisgyblu ynddi'i hun. Os dywedir wrth weithwyr a phersonau cysylltiedig i beidio â mynegi pryder neu fynd ar drywydd y pryder hwnnw, hyd yn oed gan berson mewn awdurdod fel rheolwr, ni ddylent gytuno i gadw'n dawel. Dylent roi gwybod am y mater wrth unrhyw un o'r unigolion a nodir yn y Polisi Chwythu’r Chwiban.

Caiff pryderon sy'n ymwneud ag Aelodau eu cyfeirio at y Comisiynydd Safonau.

# Gweithredu Gan y Comisiwn

Bydd y Comisiwn yn ymchwilio'n llawn i unrhyw achosion honedig neu amheus o dwyll, llygredigaeth, neu amheuaeth yn hynny o beth, a bydd yn rhoi ei weithdrefnau disgyblu ar waith pan gaiff unrhyw weithiwr ei amau o dwyll, llygredigaeth neu lwgrwobrwyo.  Gellir atal gweithwyr sy'n cael eu hamau o dwyll, llygredigaeth neu lwgrwobrwyo o'u dyletswyddau yn ystod yr ymchwiliad.

Gall honiadau a brofir yn wir arwain at gael yr unigolyn yn euog o gamymddwyn difrifol a diswyddo diannod. Gall y Comisiwn derfynu cytundebau unrhyw bersonau cysylltiedig, gan gynnwys

ymgynghorwyr neu weithwyr eraill sy'n gweithredu dros, neu ar ran, y Comisiwn ac sydd wedi'u cael yn euog o dorri'r polisi hwn.

Gall y Comisiwn hefyd roi gwybod am unrhyw fater i'r awdurdodau perthnasol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, y Swyddfa Twyll Difrifol, Swyddfa Erlyniadau Cyllid a Thollau a'r heddlu. Bydd y Comisiwn yn darparu'r holl gymorth sydd ei angen ar yr awdurdodau perthnasol mewn unrhyw erlyniad canlyniadol.

# Adolygu Gweithdrefnau a Hyfforddi

Bydd y Comisiwn yn cyfathrebu ei fesurau a luniwyd i fynd i'r afael â thwyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo i weithwyr a phersonau cysylltiedig yn gyson. Bydd y Comisiwn yn cynnal sesiynau hyfforddi pan fo'n berthnasol.

Bydd y Comisiwn yn monitro ac adolygu'r modd y mae'r polisi hwn a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig ag ef yn cael eu gweithredu yn rheolaidd, gan gynnwys adolygu systemau ariannol mewnol, treuliau, lletygarwch corfforaethol, rhoddion a pholisiau adloniant.